# SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLEB YR UNIGOLYN
# RHEOLWR CYNNAL A CHADW CYNLLUNIEDIG A DATGARBONEIDDIO

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Rheolwr Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Datgarboneiddio |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Asedau |
| **Yn gyfrifol am:** | Syrfewyr, Cydymaith Carbon, Cyswllt Tenantiaid a Chymorth Tîm |
| **Daliadaeth:** | Parhaol |
| **Cyflog:** | £50,562 y flwyddyn |
| **Oriau**: | 35 awr yr wythnos |

**Pwy yw Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf**

Mae Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf wedi'i leoli yng nghalon Rhondda Cynon Taf yn ne Cymru odidog. Rydym yn falch o'n cymunedau a'n hanes wedi'i wreiddio'n ddwfn o ran darparu cartrefi a chefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt. Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu rhagor o fanylion am ein gweithgareddau, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion allweddol.

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 2000 o gartrefi ar rent, gan gynnwys 4 cynllun cartrefi i bobl hŷn, dwy loches i fenywod a nifer o brosiectau tai â chymorth sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Mae ein his-gwmni hynod uchel ei barch, Gofal a Thrwsio Cwm Taf, yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn neu anabl sy'n byw mewn cartrefi preifat ar draws Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ychwanegiad diweddar at y Grŵp yw Down to Zero, sef is-gwmni sy'n canolbwyntio ar liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd, gan olrhain ôl troed carbon y Grŵp a chynnig hyfforddiant, gwirfoddoli a buddion uniongyrchol yn ôl i'n Deiliaid Contract ac i'r gymuned ehangach.

Yn anad dim, sefydliad pobl ydym ni, sy'n angerddol am ddarparu gwasanaethau a chymorth gwych, bod yn gyflogwr da a bod yn bartner uchel ei barch yn ein rhanbarth ac ar draws Cymru.

**Prif Bwrpas y Rôl**

Mae'r Rheolwr Cynnal a Chadw Cynlluniedig a Datgarboneiddio yn gyfrifol am gyflwyno prosiectau unigol mwy, Safon Ansawdd Tai Cymru a rhaglenni gwaith Datgarboneiddio a fydd yn cyflawni targedau sefydliadol a rheoleiddiol lleihau carbon o fewn ein cartrefi. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu cartref o ansawdd uchel gydag effeithlonrwydd ynni gwell i gwsmeriaid trwy reolaeth ragweithiol ac effeithiol o fewn eu maes gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys gyrru ein huchelgeisiau datgarboneiddio ac ôl-osod o strategaeth i gyflawni, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyllid grant i sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf i denantiaid

ac i'r sefydliad. Byddwch yn gyrru diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol ar draws pob maes gwaith, gan sicrhau bod pob rhwymedigaeth ddeddfwriaethol a statudol yn cael ei bodloni.

Ffocws y rôl yw cynnig cymorth, arweiniad a goruchwyliaeth i'r tîm trwy sesiynau cymorth unigol, cyfarfodydd tîm a fframweithiau perfformiad sy'n galluogi'r tîm i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn hyderus ac yn gymwys. Yn ogystal, byddwch yn llysgennad ac yn cynrychioli buddiannau'r sefydliad yn eich maes gwasanaeth yn allanol.

Yn ogystal, mae'r rôl yn gyfrifol am sicrhau bod pob darn o waith yn cael ei gwblhau o fewn targedau'r gyllideb, gan fodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol a sicrhau perfformiad rhagorol gan gontractwyr. Mae'r rôl yn cynorthwyo'r Pennaeth Asedau â gwybodaeth reoli a data perfformiad allweddol ehangach, sy'n galluogi cynllunio strategol a gweithredol effeithlon ynghyd â dealltwriaeth glir o'r hyn rydym ni'n ei wneud yn dda, a lle mae angen i ni wella.

Bydd rheolwyr yn gyfrifol am adrodd gwybodaeth i'r Penaethiaid Gwasanaeth am amrywiaeth o weithgarwch gweithredol, risg a chydymffurfio trwy strwythurau adrodd ac o adborth o fewn eu meysydd gwasanaeth. A byddant yn cyfrannu'n llawn at brosesau rheoli risg, gosod cyllideb a rheoli.

Gweithio ar y cyd ag Arweinwyr Tîm eraill o fewn y gyfarwyddiaeth i nodi heriau darparu gwasanaethau ar draws y gwasanaeth, datrys problemau a dod o hyd i atebion sy'n golygu gwneud y mwyaf o'r gwasanaeth i denantiaid. Yn ogystal, bydd yr Arweinwyr Tîm yn gweithio gyda'r Rheolwyr/Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau i greu amgylchedd lle mae gwelliant parhaus yn cael ei gofleidio trwy ddiwylliant cadarnhaol a chyflawni deilliannau rhagorol i denantiaid a chydweithwyr.

**Mesurau Perfformiad Allweddol**

- Arweinyddiaeth weithredol gadarn y Tîm Cynlluniedig a Datgarboneiddio, gyda thîm o ganlyniad sy'n meddu ar yr hyfforddiant, y sgiliau, y profiad a'r gwerthoedd angenrheidiol i gynnal y lefelau cydymffurfio, ansawdd a pherfformiad gwasanaeth cwsmeriaid uchaf
- Cyfrannu at ddatblygu a rheoli cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol o fewn y tîm a chyflawni hynny
- Sicrhau bod pob darn o waith yn cael ei gwblhau o fewn y Gyllideb a threfniadau cytundebol, gan reoli'r gyllideb yn gadarn ar draws holl feysydd gweithgarwch gwaith cynlluniedig, gan gynnwys goruchwyliaeth ar gyfrifon rheoli, cynllunio gwaith a rhagweld, a chyfrannu at y broses gyllidebu flynyddol trwy ddeall blaenoriaethau a risgiau allweddol
- Cefnogi'r Pennaeth Asedau â'r holl gaffael ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru, prosiectau cynlluniedig a datgarboneiddio a sicrhau bod pob gwaith yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni targedau a chamau gweithredu, fel y'u hamlinellir o fewn y strategaeth rheoli asedau.

- Cydlynu gweithgarwch datgarboneiddio wedi'i ariannu gan grant ac wedi'i ariannu'n fewnol, yn cynnwys ceisiadau grant, caffael, adrodd ac adolygu prosiectau ôl-osod allweddol yn brydlon, ac yn gywir
- Gweithio gyda'r Pennaeth Asedau a Down to Zero i gyfrannu tuag at gyflawni uchelgeisiau sero carbon, gan ddefnyddio prosiectau eiddo a thir
- Cynhyrchu adroddiadau, gyda naratif cryf sy'n galluogi'r Pennaeth Asedau a'r Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau i ddatblygu Strategaeth Rheoli Asedau gadarn, penderfyniadau allweddol ynghylch ein stoc, ymhle rydym ni'n gwneud yn dda a pha feysydd mae angen i ni eu gwella
- Cynhyrchu offer gwybodaeth allweddol, gan gynnwys data arolygon asesiadau ôl-osod, sy'n llywio strategaethau a meysydd gwaith ehangach
- Goruchwylio cipio data o fewn ein system rheoli asedau i sicrhau ei fod yn gywir a'i fod yn darparu gwybodaeth gritigol fel y gellir rhagweld y gyllideb a'r gwaith sy'n ofynnol yn glir, yn unol â modelu ariannol.
- Cefnogi a dangos tystiolaeth bod sgôr boddhad uchel gan gwsmeriaid ar gyfer gwaith, gyrru gwasanaeth cwsmeriaid a diwylliant boddhad cryf sy'n gwella data arolygon tenantiaid blynyddol yn gysylltiedig â boddhad cyffredinol â gwasanaethau flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Sicrhau bod y grŵp yn ceisio gwerth am arian wrth gaffael contractwyr a chydrannau, gan gynnwys cydlynu cyfathrebu ac ymgynghori â thenantiaid
- Gyrru diwylliant rheoli contractau o fewn y tîm fel bod isgontractwyr yn gwybod am ein gofynion o ran ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid, gwerth am arian a buddion cymunedol

**Galluoedd Allweddol**

- Sgiliau rheoli perfformiad rhagorol
- Arbenigedd a ffocws gwasanaeth cwsmeriaid
- Gwybodaeth dechnegol am y maes gwasanaeth
- Yn chwilfrydig bob amser
- Cydweithredwr a chyfathrebwr rhagorol
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau cadarn
- Sgiliau rheoli cyllideb cadarn
- Rheoli amser yn rhagorol
- Meddylfryd sy'n canolbwyntio ar atebion
- Aelod da o dîm
- Meddyliwr annibynnol
- Yn cynllunio ac yn blaenoriaethu eich gweithgareddau eich hun a gweithgareddau gwaith tîm
- Dealltwriaeth strategol o sut mae'r maes gwaith yn cyd-fynd â nodau corfforaethol ehangach y sefydliad

**Galluoedd Technegol**

- Cymhwyster proffesiynol perthnasol mewn Adeiladu e.e. HNC/HND, gradd BSc neu gyfwerth neu debyg trwy brofiad mewn gwaith sy'n gysylltiedig â'r rôl.
- Profiad o gyflawni rhaglenni gwaith cynlluniedig Safon Ansawdd Tai Cymru o fewn cyllideb
- Cydlynydd ôl-osod neu'n barod i weithio tuag at hynny
- Profiad a gwybodaeth am ddatgarboneiddio ac ORP o fewn sector tai Cymru
- Tystiolaeth o brofiad o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac arferion gweithio gweithredol yn gysylltiedig â gwaith adeiladu a chynnal a chadw.
- Gwybodaeth gadarn am adeiladu a chynnal a chadw adeiladau, a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig.
- Gwybodaeth ymarferol am asesiadau ôl-osod, EPCs a chronfeydd data asedau.
- Gwybodaeth am gontractau a chaffael, gan gynnwys JCT, rhestri prisiau, ysgrifennu manylebau a chostio elfennaidd adeiladu.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch cyfrifoldebau cyfreithiol a hawliau landlordiaid a thenantiaid a dyletswyddau asiantaethau statudol ac asiantaethau eraill o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a chyfraith tenantiaethau.
- Dealltwriaeth o sut olwg ddylai fod ar wasanaeth cwsmeriaid rhagorol a chyfathrebu rhagorol â thenantiaid o ran gwasanaethau cynnal a chadw, gan gynnwys ymgynghoriadau ffurfiol yn gysylltiedig â gweithgarwch gwasanaethau y codir tâl amdanynt.
- Sgiliau cadarn o ran rheoli staff, gyda phrofiad o reoli staff, gan gynnwys gosod safonau a monitro perfformiad.
- Yn hyderus wrth gynllunio a rheoli cyllidebau ac adnoddau.
- Yn gallu dadansoddi gwybodaeth gymhleth a llunio adroddiadau ysgrifenedig yn rhesymegol ac yn gryno.
- Yn hyderus wrth feithrin perthnasoedd effeithiol ag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau.
- Yn gallu datblygu, gweithredu, monitro a chynnal systemau, gan gynnwys TG, ar gyfer gwybodaeth reoli effeithiol.
- Meddu ar drwydded yrru lawn ar gyfer car a'r defnydd o gar ar bob diwrnod gwaith

**Dymunol**
Byddai'n ddymunol hefyd i ddeiliad y swydd feddu ar y canlynol:

- Cymhwyster proffesiynol ym maes adeiladu neu gynnal a chadw – RICS, CIOB neu gyfwerth.
- Cymhwyster Iechyd a Diogelwch h.y. NEBOS, rheoli IOSH neu gyfwerth.
- Dealltwriaeth o Reoliadau Adeiladu a Safonau Ansawdd Tai Cymru.
- Deall prosesau busnes a rôl Byrddau yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Y gallu i siarad Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg

Atodiad 1:

EIN GWELEDIGAETH Rydym am fod yn rhan o gymunedau hapus, iach a llewyrchus yn y cymoedd, lle mae gan bawb gyfle i fyw'n dda. EIN PWRPAS Rydym ni yma i ddarparu cartrefi a chefnogaeth wych i'r bobl sy'n rhan o'n cymunedau. EIN HYMRWYMIAD I GYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH - Mae amrywiaeth yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn rhoi pwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn eu hyrwyddo ar bob lefel ar draws y sefydliad.

Ein Gwerthoedd

**ANGERDD –** Rydyn ni'n poeni'n angerddol am yr hyn rydyn ni'n ei wneud

**PARCH** – Rydym yn trin pawb â pharch

**CYFRIFOLDEB** – Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd

**UNIONDEB** – Rydym yn cyflawni ein rolau yn onest ac yn ddidwyll

**RHAGORIAETH** – Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau glas

Amcanion allweddol:
• Cefnogi cymunedau gwydn
• Darparu gwasanaethau rhagorol
• Cynyddu ein cyflenwad o gartrefi
• Diogelu ein cynaliadwyedd ariannol
• Buddsoddi yn ein llywodraethu, ein pobl a'n systemau
• Gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gyflawni nodau a rennir

Ar draws pob blaenoriaeth y mae:
- Tegwch a chydraddoldeb
- Gwerth am arian
- Lleihau ein heffaith amgylcheddol